Bitesize

# Proses Haber

| | |
|---|---|
| MAGS | Haia. Mags dw i, a dyma Cal. Cal. |
| CAL | Ocê, ocê, dw i'n dod. Yn y rhifyn yma, mae Mags wedi gwneud fideo am amonia a phroses Haber. Dw i'n gorfod mynd – mae gen i ddêt heno. |
| MAGS | 'Proses Cal' sydd ei hangen i dy gael di'n barod. Dyma fy fideo. Criba dy wallt, wir. |
| CAL | Dw i wedi… |
| MAGS | Mae amonia mewn lliw gwallt, ond hefyd mewn gwrtaith, hylifau glanhau, a ffrwydron. Felly, sut mae cynhyrchu amonia, meddech chi?<br><br>Mae moleciwlau o nitrogen, sy'n dod o'r aer, a hydrogen, yn cael eu cymysgu mewn adwaith o'r enw proses Haber.<br><br>Mae'n adwaith cildroadwy, felly mae'r saeth yn mynd i'r ddau gyfeiriad.<br><br>Mae Anti Trish yn gweithio mewn ffatri sy'n gwneud amonia ar gyfer gwrtaith. Dyma'r fideo wnes i pan es i i'w gweld hi.<br><br>Waw, mae hyn yn edrych yn ddrud. |
| TRISH | Ydy. Mae'r ffatri'n gwario llwyth o arian, yn enwedig ar y bil egni.<br><br>Mae'r costau egni'n codi os yw e'n defnyddio tymheredd uwch. Rhaid ystyried ffactorau amgylcheddol hefyd.<br><br>A'r ddau brif ffactor sy'n effeithio ar yr adwaith cemegol yw tymheredd, a gwasgedd. |
| MAGS | Felly, rydych chi'n cynhesu'r nitrogen a'r hydrogen, yn cynyddu'r gwasgedd, a... |
| TRISH | …mae'r moleciwlau'n symud yn gyflymach, ac yn gwrthdaro mwy – yna mae'n 'amonia o'r gloch'. |
| MAGS | Amser go iawn ydy hynny? |


© Hawlfraint BBC

TRISH | Nage. Hefyd. rydyn ni'n cyflymu'r adwaith gyda chatalydd – gyda phroses Haber, haearn yw e. Rhaid newid yr haearn weithiau, achos mae e'n cael ei wenwyno.

Nawr, mae'r blaenadwaith yn y broses yn un ecsothermig, sef...

MAGS | ...os ydy o'n rhy boeth, mae'r amonia'n troi'n ôl yn hydrogen ac yn nitrogen.

TRISH | Yn gymwys. Mae'r adwaith yn stryd ddwyffordd, a nawr rydyn ni'n mynd am yn ôl, bant o Ammoniaville. A na – dim lle go iawn yw e.

MAGS | Ac os ydy'r tymheredd yn rhy isel, fydd y gyfradd adwaith yn isel hefyd…

TRISH | …sy'n gwneud y broses yn hirach ac yn ddrutach. Felly, mae angen tymheredd cyfaddawd, rhwng 350°C a 450°C – digon isel i gael cynnyrch da o amonia, ond yn ddigon uchel i gael cyfradd adwaith gyflym. Mae hydrogen a nitrogen sydd heb adweithio'n mynd yn ôl drwy'r system i drio eto.

Bydd gwasgedd uchel iawn yn codi'r costau egni hefyd, ond os yw e'n rhy isel, bydd yr adwaith yn araf. Felly, mae angen gwasgedd cyfaddawd rhwng 150 a 200 atmosffer.

MAGS | Diolch, Anti Trish. Wna' i adael i chi fynd rŵan. Mae gennych chi lond amonia o waith i'w wneud.

CAL | Felly, mae angen i'r tymheredd a'r gwasgedd fod ar y gyfradd orau posibl i gadw'r costau cynhyrchu mor rhad â phosibl.

MAGS | Oes. A sôn am rad – cofia fynd â phres efo ti tro 'ma. O leiaf rwyt ti'n edrych yn cŵl.


© Hawlfraint BBC